

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

C. B. Jones

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach **brynhawn Mercher 20 Medi 2017** am **5.00pm**.

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Côd Ymddygiad.
 1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
 2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CYHOEDDIADAU

3 COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2017, yn rhai cywir.

1– 10

4 LLYWODRAETH AGORED:

5 DATGANIADAU yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN AELODAU

(a) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. James i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D. R. Bevan)**

“A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet wneud datganiad ynglŷn â phwysigrwydd y broses ymgynghori statudol yn ystod y broses cais cynllunio?”

(b) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L. Hooper i Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Morgan)**

“A fydd yr Aelod o'r Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran y prosiectau sydd wedi eu hariannu gan yr Ardoll Seilwaith Cymunedol?”

(c) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. R. Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. Hopkins)**

“A wnewch chi ddatganiad ynglŷn â'r gwasanaethau i'r henoed yn Rhondda Cynon Taf?”

(d) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. Caple i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D. R. Bevan)**

“Beth ydy'r Cyngor yn ei wneud i ddenu buddsoddi o'r tu allan ac i greu cyfleoedd adfywio?”

(e) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. Bonetto i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Webber)**

“A fydd yr Aelod o'r Cabinet yn gwneud datganiad ynglŷn â dull y Cyngor o greu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ifainc?”

7 Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 11 - 26

8 Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Cronfa Bensiwn 27 – 42

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

9 Datganiad Cyfrifon 2016/17

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen. **43 – 276**

10 Diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol – dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru

Trafod adroddiad ar y cyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a Chyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus. **277 -332**

11 Darparu tyweli misglwyf ac ati mewn ysgolion yn Rhondda Cynon Taf (Rhybudd o Gynnig) – Adroddiad Interim

Trafod adroddiad interim Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol. **333-334**

12 Rhybuddion o Gynigion

(1) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J. James, L. Hooper, M. Diamond a K. L. Jones:-

“Mae'r Cyngor hwn yn cefnogi'r ymgyrch, “Dying to Work” – wedi ei threfnu gan Gyngres yr Undebau Llafur ('TUC') – ac yn cydnabod bod angen codi ymwybyddiaeth ohoni, ynghyd â'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig gan wahanol elusennau, ar gyfer yr aelodau hynny o staff yn y Cyngor sydd wedi cael gwybod bod ganddyn nhw afiechyd terfynol.

Bydd y Cyngor hwn yn ceisio sicrhau cefnogaeth yr Undebau a Grwpiau Cymorth eraill trwy roi dulliau ar waith i gynorthwyo unigolion, eu teuluoedd a hefyd eu cydweithwyr yn yr ymgyrch hon.”

(2) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol G. Thomas a G. Caple:-

“Mae'r Cyngor hwn yn cefnogi hawliad tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer 2018 sydd wedi ei gyflwyno gan yr

undebau – UNSAIN, GMB ac Unite – ar ran gweithwyr ysgolion a'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn galw am ddod â'r cap cyflog yn y sector cyhoeddus i ben ar unwaith i sicrhau nad yw tâl y Cydgyngor Cenedlaethol yn cael gostwng ymhellach y tu ôl i rannau eraill o'r sector cyhoeddus.

Mae'r Cyngor hwn yn croesawu ac yn cefnogi'r adolygiad ar y cyd o raddfa dâl y Cydgyngor Cenedlaethol i unioni'r aflonyddwch sydd wedi cael ei achosi gan setliadau tâl sy'n cynyddu wrth fynd i lawr y raddfa.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i roi'r cyllid llawn i Gymru er mwyn ariannu codiad cyflog boddhaol i weithwyr y Cydgyngor Cenedlaethol a'r adolygiad o'r raddfa dâl ac i roi terfyn ar doriadau i gyllid y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

- Galw yn syth ar Gymdeithas Llywodraeth Leol i gyflwyno achos ger bron y Llywodraeth i roi'r cyllid llawn i hawliad y Cydgyngor Cenedlaethol a'r adolygiad o'r raddfa dâl ac i roi gwybod i ni am ei chamau yn hyn o beth.
- Ysgrifennu at y Prif Weinidog a'r Canghellor yn cefnogi hawliad tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ac yn gofyn am gael y cyllid llawn ar gyfer codiad cyflog boddhaol a'r adolygiad o'r raddfa dâl.
- Cyfarfod â chynrychiolwyr undebau lleol y Cydgyngor Cenedlaethol i ddangos cefnogaeth i'r hawliad tâl a'r adolygiad o'r raddfa dâl.

- 13** Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

**At: Pob Aelod o'r Cyngor
13 Medi 2017**